



LLYTHYR NEWYDDION

Rhifyn 01 / 2017

Croeso i lythyr newyddion cyntaf Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru. Mae'r Partneriaeth, a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn dod ynghyd â Cyngorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, cydweithwyr o'r trydydd sector a'r sectorau annibynnol a defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr, er mwyn trawsnewid gofal a chymorth yn y rhanbarth a chyflymu'r broses o integreiddio.

Y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Mae'n ofynnol o dan Ran 9 y Ddeddf bod Byrddau Partneriaeth Ranbarthol newydd yn cael eu creu sydd â dyletswyddau penodol o hyrwyddo'r broses o integreiddio gwasanaethau gofal a chymorth. Mae'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol yn cwmpasu ardaloedd pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Cafodd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Mehefin 2016. Cadeirydd y Bwrdd yw Sue Darnbrook, Cyfarwyddwr Strategol dros Ofal, Diogelu a Ffordd o Fyw yng Nghyngor Sir Ceredigion. Yr Is-gadeirydd yw'r Cyngorydd Simon Hancock, Aelod Annibynnol dros Ddwyrain Neyland, ynghyd ag Aelod Cabinet Cyngor Sir Penfro dros Wasanaethau Oedolion, Iechyd a Llesiant a Chydraddoldeb. Aelodau eraill y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yw:

Alan Thomas – Cynrychiolydd Defnyddwyr
Y Cyngorydd Catherine Hughes - yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Ofal, Sicrwydd a Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ceredigion
Ceri Williams – Cynrychiolydd y Cyhoedd, Cyngor Gofal Cymru
Y Cyngorydd Jane Tremlett - Talacharn
Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Jake Morgan – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin
James Tyler – Cynrychiolydd Defnyddwyr, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro



Dolen at Hanfodion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cliciwch ar Graffigyn Gofal a Chymorth uchod.



SCiP

Cynhaliwyd Cynhadledd Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth (SCiP) 2017 ym Mharc y Scarlets ar 30 Mawrth 2017. Dilynwyd y ddolen gyswllt i gael copïau o'r cyflwyniadau sleidiau a ddefnyddiwyd gan yr amrywiol siaradwyr ar y diwrnod.

<http://www.wwcp.org.uk/sci-p-conference-30-march-2017/> .

Jill Paterson – Cyfarwyddwr Comisiynu Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jonathan Griffith – Pennaeth Gofal Oedolion, Cyngor Sir Penfro
Karen Chandler - Prif Swyddog, Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Kim Neyland - Rheolwr Busnes a Rhaglen Ranbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Martyn Palfreman - Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Martyn Pengilley – Cynrychiolydd y Cyhoedd, Cyngor Gofal Cymru
Melanie Minty – Ymgynghorydd Polisi, Fforwm Gofal De-orllewin a De-ddwyrain Cymru
Steven Griffiths – Cynrychiolydd Gofalwyr
Sue Leonard - Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro



System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS).
Cliciwch ar y graffigyn uchod i gael mynediad i'r wefan.

Tracey Price – Cyfarwyddwr, Mind Sir Benfro Yn rhifynnau'r llythyr newyddion hwn yn y dyfodol bydd aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn rhoi eu safbwyntiau personol ar waith y Bartneriaeth.

Blaenoriaethau Rhanbarthol

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi nodi 5 blaenoriaeth strategol ac asiantaeth 'arwain y ffordd' a fydd yn arwain y gweithredu yn y rhanbarth. Dyma nhw:

- 1. Comisiynu integredig** (yn canolbwyntio ar wasanaethau i oedolion hŷn): (Yn arwain y ffordd: Cyngor Sir Penfro)
- 2. Cronfeydd cyfun:** (Yn arwain y ffordd: Cyngor Sir Caerfyrddin)
- 3. Ailfodelu gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu:** (Yn arwain y ffordd: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
- 4. Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth:** (Yn arwain y ffordd: Cyngor Sir Penfro)
- 5. Gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)**(Yn arwain y ffordd: Cyngor Sir Ceredigion)

Bydd rhifynnau'r Llythyr Newyddion hwn yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y modd y caiff y blaenoriaethau hyn eu gwireddu.

Asesiad Poblogaeth

Mae'n ofynnol o dan Ran 2 y Ddeddf fod Byrddau Partneriaeth Ranbarthol yn cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion gofal a chymorth yn eu hardal bob 5 mlynedd. Rhaid i'r Asesiad Poblogaeth cyntaf gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth eleni. Mae ymgymryd â'r Asesiad Poblogaeth wedi bod yn un o brif feysydd ffocws y Bwrdd Partneriaeth

Ranbarthol dros y misoedd diwethaf. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae'r Asesiad yn darparu dadansoddiad o'r canlynol:

- Yr angen am ofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr yng Ngorllewin Cymru
- Amrywiaeth a lefel y gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau ataliol, y mae eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny
- I ba raddau y caiff yr anghenion hynny eu diwallu a'r manau sydd angen eu gwella
- Sut mae ac y bydd y gwasanaethau yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg

Bu cynrychiolwyr yr asiantaethau partner yn cydweithio dros haf a hydref 2016 i gynnal yr Asesiad, sy'n edrych ar anghenion gwahanol grwpiau yn y gymuned gan gynnwys gofalwyr, plant a phobl ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl. Defnyddiwyd ystod o ddata i lywio'r Asesiad, ochr yn ochr ag adborth gan drigolion a ymatebodd i'r Arolwg Llesiant a gynhaliwyd dros haf 2016 i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Asesiad yn tynnu sylw at arferion da yn y meysydd hyn ond mae'n pwysleisio'r angen am newid radical pellach dros y cyfnod i ddod i ddiwallu'r angen cynyddol am ofal a chymorth ar yr un pryd â'r lleihad mewn adnoddau. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau bod egwyddorion y Ddeddf, megis helpu pobl i'w helpu eu hunain a phwysigrwydd gwell deilliannau i unigolion, yn cael eu gwireddu yn ein rhanbarth.

Cafodd yr Asesiad Poblogaeth ei gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Rhagfyr 2016 ac aeth trwy broses gymeradwyo ym mhob un o'r asiantaethau partner statudol. Cafodd ei gyhoeddi ar 31 Mawrth ac mae ar gael ar wefan Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a gwefannau partneriaid.

Rhaid cynhyrchu Cynllun Ardal sy'n cyflwyno'r modd y bydd y Bartneriaeth yn mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr Asesiad Poblogaeth erbyn 31 Mawrth 2018. Mae gwaith eisoes yn digwydd i gyflawni hyn, a bydd yna ymwneud pellach ag ystod o randdeiliaid wrth i'r Cynllun barhau i gael ei ddatblygu. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn cael ei darparu yn rhifynnau'r llythyr newyddion yn y dyfodol.

Uned Cydweithredu Rhanbarthol

Caiff gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Bartneriaeth ehangach ei gefnogi gan yr Uned Cydweithredu Rhanbarthol, a gynhelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin dan arweiniad Martyn Palfreman, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol. I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y Llythyr Newyddion hwn a gwaith y Bartneriaeth yn fwy cyffredinol, cysylltwch â'r Uned ar 01267 228958 WWWBP@sirgar.gov.uk

Beth yw eich barn chi?

Rydym am gael eich barn am y llythyr newyddion hwn a'ch syniadau am eitemau i'w cynnwys yn rhifynnau'r dyfodol. Gallwch anfon eich sylwadau a'ch syniadau at WWWBP@sirgar.gov.uk



Mae Cydweithredu i Ofalu wedi cyhoeddi eu llythyr newyddion cyntaf

Gwasanaeth a all eich helpu i rannu eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch syniadau yw Cydweithredu i Ofalu, er mwyn gwella'n uniongyrchol y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu - ac maent yn gwneud hyn trwy gydweithredu. Hoffech chi wybod mwy am Gydweithredu i Ofalu? Ewch i'w [tudalennau gwe](#).



Hawlfraint © 2016 Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, Cedwir pob hawl.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru | Parc Myrddin - Adeilad Un | Waun Dew | Caerfyrddin | SA31 1HQ

Ein cyfeiriad e-bost yw: WWWBP@sirgar.gov.uk